



Cronfa Amaethyddol Ewrop ar
gyfer Datblygu Gwledig
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for
Rural Development
Europe Investing in Rural Areas



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Glastir

Grantiau Bach Glastir

Canllaw Technegol
Gwaith Cyfalaf Carbon

Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru –
Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru

2014-2020



Cynllun Grantiau Bach Glastir Carbon

Rhaglen gwaith cyfalaf yw Grantiau Bach Glastir, sydd ar gael i fusnesau ffermio ledled Cymru i gynnal prosiectau fydd yn helpu i gloi carbon.

Bydd eitemau Gwaith Cyfalaf yn cynnwys 'Prif' Waith a Gwaith 'Ategol'. Gyda'i gilydd, maen nhw'n ffurfio 'Prosiect'.

Bydd prosiect yn cynnwys:

- Y Prif Waith Cyfalaf, i fynd i'r afael ag amcanion y thema
- Y Gwaith Cyfalaf Ategol sy'n ei gwneud yn bosib cynnal y Prif Waith Cyfalaf e.e. Plannu perth/gwrych (opsiwn 900), yw'r Prif Waith Cyfalaf ond byddai codi ffens postyn a weiren (opsiwn 594) i ddiogelu'r berth rhag difrod yn Waith Cyfalaf Ategol Gorfodol, a byddai Gataiau Pren Caled (opsiwn 599) yn Waith Cyfalaf Ategol Opsiynol.

Mae'r Thema Carbon yn cynnig eitemau Gwaith Cyfalaf sydd wedi cael eu dewis am eu manteision amgylcheddol eang a bras a'u gallu i wireddu uchelgais Llywodraeth Cymru i ddal mwy o garbon.

Mae 'dal carbon' yn golygu storio carbon deuocsid am y tymor hir ac mae'n cael ei ystyried fel ffordd i arafu'r broses lle mae nwyon tŷ gwydr yn crynhoi yn yr atmosffer.

Cael gwared ar fwy o garbon

Mae coed a llwyni i gyd yn amsugno carbon deuocsid wrth dyfu. Y nod yw eu defnyddio am eu rhan yn y cylch carbon i ddal carbon deuocsid a chymryd carbon amaethyddol o'r atmosffer.

Mae perthi'n ddefnyddiol iawn ar gyfer rheoli stoc ac i roi cysgod i dda byw ac fel rhwystrau effeithiol i arafu lledaeniad clefydau anifeiliaid.

Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod pwysigrwydd perthi fel rhan o'n treftadaeth ddiwylliannol a'u gwerth anferth i anifeiliaid gwyllt a'r dirwedd. Mae mwy o bobl yn dod i sylweddoli eu gwerth hefyd o ran amddiffyn pridd a rhwystro llygredd rhag lledaenu.

Bydd cynyddu'r perthi a'r coed yng Nghymru yn cael effaith bositif ar hinsawdd sy'n newid trwy gymryd nwyon tŷ gwydr o'r atmosffer trwy storio carbon yn y biomas. Mae arferion amaethyddol sy'n dal carbon yn llesol i ansawdd pridd, aer a dŵr yn ogystal ag i fioamrywiaeth.

Datgan Diddordeb
www.llyw.cymru/glastir

Dewis a Sgorio
www.llyw.cymru/glastir

Contractau Grantiau Bach Glastir
www.llyw.cymru/glastir

Prif Waith Cyfalaf

- 900 Plannu Perth/Gwrych Newydd
- 901 Bondocio Perth/Gwrych a Chau Bylchau
- 902 Plygu Perth/Gwrych
- 610 Coed - Hirgyff
- 611 Coed a Llwyni - Trawsblannu
- 612 Coed a Llwyni – Coed Chwip
- 645 Coed Perllan gyda Phostyn a Giard
- 646 Plannu Llafnau

Gwaith Cyfalaf Ategol

- 514 Camfa Ysgol
- 516 Cilbyst a Gât Ceffyl o Bren
- 519 Camfa Bren
- 533 Gât Mochyn Daear
- 573 Gât Ddŵr
- 563 Pibelli Cyflenwi Dŵr
- 574 Cafnau Dŵr
- 593 Ffens Postyn a Rheilen
- 594 Ffens Postyn a Weiren
- 596 Ffensys Cwningod
- 599 Gatiau Caeau (Pren Caled)
- 600 Gatiau Caeau (Pren Meddal)
- 604 Giardiau rhag Stoc ar Goed Parcdir
- 608 Cysgod Coed (60cm gyda Phostyn)
- 647 Llewys Coed rhag Cwningod
- 905 Rheoli Mieri/Prysg – Chwistrellydd Cefn

Bydd Prosiect Grantiau Bach Glastir yn cynnwys un Prif Waith Cyfalaf gydag un neu fwy o eitemau Gwaith Cyfalaf Ategol i'w gefnogi. Sylwch: Gall Gwaith Cyfalaf Ategol fod yn orfodol, yn opsiynol

neu heb fod ar gael, gan ddibynnu pa Brif Waith Cyfalaf y mae'n ei gefnogi o fewn y Prosiect hwnnw. Gweler y tabl isod:

		Gwaith Cyfalaf Ategol																		
		Cod	514	516	517	519	533	563	573	574	593	594	595	596	599	600	604	608	647	905
Prif Gwaith Cyfalaf	Cod	Teitl	Camfa Ysgol Ddwbl	Cilbyst a Gât Ceffyl o Bren	Cilbyst a Gât Mochyn o Bren	Camfeydd Pren	Gât Moch Daear	Pibell Cyflenwi Dŵr	Gât Ddŵr	Cafnau Dŵr	Ffens Postyn a Rheilen	Ffens Postyn a Weiren	Ffens Postyn a Weiren â Natin	Ffens Gwningod	Gât Cae o Bren Caled	Gât Cae o Bren Meddal	Giardiau rhag Stoc ar Goed Parcdir	Cysgod Coed [60cm gyda phostyn]	Llewys Coed rhag Cwningod	Rheoli Mieri /Prysg – Chwistrellydd Cefn
	900	Plannu Perth Newydd		2	2	2	2	2	2	2	0	1	1	2	2	2	0	0	0	2
	901	Bondocio Perth a Chau Bylchau	2	2	2	2	2	2	2	2	0	1	1	2	2	2	0	0	0	0
	902	Plygu Perth	2	2	2	2	2	2	2	2	0	1	1	2	2	2	0	0	0	0
	610	Coed – Hirgyff (heb ffens)	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	1	1	1	0
	611	Coed a Llwyni – trawsblannu (coetir bach)	2	2	2	2	2	2	2	2	2	1	1	2	2	2	2	1	1	2
	612	Coed a Llwyni – coed chwip	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	2	1	1	0
	645	M25 & MM111 Coed Perllan gyda phostyn a giard	2	2	2	2	2	2	0	2	2	2	2	2	2	2	0	0	0	2
	646	Plannu Llafnau (heb ffens)	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	0	2	2	0

0 Amherthnasol 2 Opsiynol ychwanegol 1 gorfodol

900 Plannu Perth/Gwrych Newydd

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer 'Plannu Perth/Gwrych Newydd'. Os ydych am ddefnyddio dulliau neu arddulliau lleol traddodiadol sy'n wahanol i'r safon, mae croeso ichi wneud hynny, ond os ydych am newid y safon yn sylweddol, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru.

Mae'r nodyn technegol yn disgrifio'r arfer gorau ar gyfer:

- plannu perthi newydd;
- coed perthi;
- ffensio a mesurau eraill i amddiffyn perthi

Plannu Perth Newydd

Yr amser gorau i blannu planhigion newydd yw rhwng Tachwedd a Mawrth. Dylech droi'r pridd yn gyntaf, trwy ei rotofatïo, ei aredig neu ei balu yr haf blaenorol ond gofalwch nad ydych yn difrodi'r clawdd y mae'r berth yn tyfu arni. Ar bridd llwm, gallech ychwanegu hen dail wedi pydru. Dylech ddefnyddio cymysgedd sy'n cynnwys o leiaf tair rhywogaeth o goed a llwyni sy'n gyffredin yn eich ardal chi, ond ni ddylai'r un rhywogaeth gyfrif am fwy na 75% o'r cyfanswm.

Oherwydd clefyd y coed ynn (*Chalara fraxinea*), ni ddylech gynnwys coed ynn mewn unrhyw gymysgedd plannu ar gyfer coetir nac wrth blannu neu adfer perth.

Dylai'r planhigion fod yn 3-4 oed a 45-60cm o daldra. Dylai fod ganddynt wreiddiau da ac egin tyfu cryf. Os medrwy, dewiswch planhigion o hadau neu doriadau o goed lleol, gan y byddant yn fwy tebygol o oroesi ac i gynnal mwy o anifeiliaid brodorol. Wrth eu plannu, mae'n bwysig iawn eich bod yn cadw peli'r gwreiddiau'n wlyb.

Dylech blannu 7 planhigyn bob metr mewn dwy res am yn ail, gyda 20cm rhwng pob rhes. I annog tyfiant newydd, dylech drimio'r planhigion rydych yn eu trawsblannu. Wedi hynny, gofalwch nad oes chwyn yn tagu'r

planhigion newydd a'ch bod yn eu dyfrhau'n aml mewn tywydd sych tan iddynt gydio. Plannwch goed newydd yn lle rhai marw.

Gallwch reoli chwyn trwy ddefnyddio mwlt o sglodion coed neu drwy osod shîten o bolythene du (500-gauge), 1-2m o led wrth fôn y planhigion newydd. Gallwch ddefnyddio cemegau i ladd porfa, ysgall, dail tafol a llysiau'r gingroen. Bydd pob cemegyn wedi'i argymhell ar gyfer ei ddefnyddio i ladd y planhigyn dan sylw. Dilynwch y cyfarwyddiadau ar y label wrth ei ddefnyddio.

Coed Perthi

Mae coed perthi'n cyfrannu at harddu'r dirwedd ac yn cynyddu gwerth y berth i anifeiliaid gwyllt.

Dylech blannu coed newydd yn y berth pan fyddwch yn plannu perth newydd. Dewiswch goed sy'n tyfu'n dda mewn perthi yn eich ardal.

Dylai'r goeden fod yn 1 metr neu dalach (opsiwn 612 Coed a Llwyni – coed chwiw). Bydd angen tiwb a phostyn 120cm (opsiwn 608). Wedi iddi ymddangos o'r tiwb, byddai'n beth doeth ichi dagio'r goeden gan y bydd hynny'n eich helpu i'w hosgoi pan fyddwch yn tocio'r berth.

Ffensio a Mesurau Eraill i Amddiffyn Perth

Rhaid gosod y ffens o leiaf 1m o'r planhigion newydd. Rhaid bod bwlch o leiaf 3m o led rhwng y ddwy ffens bob ochr i'r berth.

Peidiwch â defnyddio coed na llwyni fel pyst tynnu neu ffensio a pheidiwch chwaith â'u defnyddio i gynnal weiren, staplau na netin.

Gallwch ddefnyddio llewys coed i amddiffyn y berth rhag cwningod, er mewn rhai ardaloedd, byddai ffens gwningod yn fwy defnyddiol.

Ar ôl eu plannu, rhaid codi ffens o bob tu perth i'w hamddiffyn rhag da byw.

Fe welwch ddisgrifiadau manwl o lewys coed a ffensys yn y nodiadau technegol eraill.

901 Bondocio Perth/Gwrych a Chau Bylchau

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer 'Bondocio Perth/Gwrych a Chau Bylchau'. Os ydych am ddefnyddio dulliau neu arddulliau lleol traddodiadol sy'n wahanol i'r safon, mae croeso ichi wneud hynny, ond os ydych am newid y safon yn sylweddol, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru.

Mae'r nodyn technegol yn disgrifio'r arfer gorau ar gyfer:

- bondocio;
- cau bylchau mewn perthi;
- coed perthi;
- ffensio a mesurau eraill i amddiffyn perthi

Bondocio

Mae bondocio'n ddull hen iawn o drin coed. Ei sail yw bod llawer o goed a llwyni llydanddail yn gallu cynhyrchu sawl egin newydd o goesyn neu foncyff sydd wedi'i dorri. Dylech fondocio perth pan fydd coesyn coeden neu llwyn yn rhy drwchus i'w blygu (mwy na 10cm o drwch). Weithiau, bydd y coesynnau mor drwchus, bydd rhaid ichi ofyn i'r Comisiwn Coedwigaeth am drwydded gwmpo. Eich cyfrifoldeb chi yw gwybod p'un a oes angen un arnoch neu beidio.

Wrth fondocio, torrwrch y berth i lawr i 7.5cm neu lai o'r llawr a'i gadael i ailegino. Dylech ei thorri ym misoedd y gaeaf, yn ystod cyfnod o dywydd mwyn. Gallwch ofalu am dyfiant newydd y 'gadair' fel a ganlyn:

- gallwch docio'r egin yn y ddwy flynedd gyntaf i greu llwyn drwchus isel;
- ei adael i dyfu ac yna ei blygu ar ôl 5-8 mlynedd;
- ei adael i dyfu ac yna ei fondocio eto ar ôl 5-20 mlynedd.

Cau Bylchau mewn Perth wedi'i Bondocio

Er y bydd bylchau'n amlwg mewn perth wedi'i bondocio, bydd rhai coed fel drain duon yn gallu tyfu o wreiddiau sy'n tyfu'n agos at yr wyneb. Ond mewn perthi sydd heb eu bondocio

o'r blaen, dylech godi unrhyw lystyfiant o'r bylchau a thorri'r berth yn ôl at y tyfiant iach bob ochr iddi. Bydd hynny'n rhoi digon o oleuni i'r planhigion newydd gydio. Mae'r gelynnen yn blanhigyn da i'w ddefnyddio i gau bylchau o dan goed perthi sy'n cysgodir tir oddi tanynt.

Yr amser gorau i gau bylchau a phlannu planhigion newydd yw rhwng Tachwedd a Mawrth. Dylech droi'r pridd yn gyntaf, trwy ei rotofatio, ei aredig neu ei balu yr haf blaenorol ond gofawch nad ydych yn difrodi'r clawdd y mae'r berth yn tyfu arni. Ar bridd llwm, gallech ychwanegu hen dail wedi pydru. Dylech ddefnyddio cymysgedd sy'n cynnwys o leiaf tair rhywogaeth o goed a llwyni sy'n gyffredin yn eich ardal chi, ond ni ddylai'r un rhywogaeth gyfrif am fwy na 75% o'r cyfanswm.

[Oherwydd clefyd y coed ynn \(Chalara fraxinea\)](#), ni ddylech gynnwys coed ynn mewn unrhyw gymysgedd plannu ar gyfer coetir nac wrth blannu neu adfer perth.

Dylai'r planhigion fod yn 3-4 oed a 45-60cm o daldra. Dylai fod ganddynt wreiddiau da ac egin tyfu cryf. Os medrwch, dewiswch blanhigion o hadau neu doriadau o goed lleol, gan y byddant yn fwy tebygol o oroesi ac i gynnal mwy o anifeiliaid brodorol. Wrth eu plannu, mae'n bwysig iawn eich bod yn cadw peli'r gwreiddiau'n wlyb.

Dylech blannu 7 planhigyn bob metr mewn dwy res am yn ail, gyda 20cm rhwng pob rhes. I annog tyfiant newydd, dylech drimio'r planhigion rydych yn eu trawsblannu. Wedi hynny, gofawch nad oes chwyn yn tagu'r planhigion newydd a'ch bod yn eu dyfrhau'n aml mewn tywydd sych tan iddynt gydio. Plannwch goed newydd yn lle rhai marw.

Gallwch reoli chwyn trwy ddefnyddio mwlt o sglodion coed neu drwy osod shîten o polythene du (500-gauge), 1-2m o led wrth fôn y planhigion newydd. Gallwch ddefnyddio cemegau i ladd porfa, ysgall, dail tafol a llysiau'r gingroen. Bydd pob cemegyn wedi'i argymell ar gyfer ei ddefnyddio i ladd y planhigyn dan sylw. Dilynwch y cyfarwyddiadau ar y label wrth ei ddefnyddio.

Coed Perthi

Mae coed perthi'n cyfrannu at harddu'r dirwedd ac yn cynyddu gwerth y berth i anifeiliaid gwyllt. Gallwch blannu coed newydd neu gallwch adael i goed ifanc sydd eisoes yn tyfu yn y berth aeddfedu.

Rhaid cadw digon o goed ifanc a choed perthi wrth blygu perth. Anelwch at gadw 1-2 bob 100m. Dylech gynnal coed ynn lle medrwch.

Gallwch blannu coed newydd yn y berth pan fyddwch yn plannu perth newydd neu'n cau bylchau. Dewiswch goed sy'n tyfu'n dda mewn perthi yn eich ardal.

Dylai'r goeden fod yn 1 metr neu dalach (opsiwn 612 Coed a Llwyni – coed chwip). Bydd angen tiwb a phostyn 120cm (opsiwn 608). Wedi iddi ymddangos o'r tiwb, byddai'n beth doeth ichi dagio'r goeden gan y bydd hynny'n eich helpu i'w hosgoi pan fyddwch yn tocio'r berth.

Ffensio a Mesurau Eraill i Amddiffyn Perth

Rhaid gosod y ffens o leiaf 1m o'r planhigion newydd a'r cadeiriau bondocio. Rhaid bod bwlch o leiaf 3m o led rhwng y ddwy ffens bob ochr i'r berth.

Peidiwch â defnyddio coed na llwyni fel pyst tynnu neu ffensio a pheidiwch chwaith â'u defnyddio i gynnal weiren, staplau na netin.

Gallwch ddefnyddio llewys coed i amddiffyn y berth rhag cwningod, er mewn rhai ardaloedd, byddai ffens gwningod yn fwy defnyddiol.

Ar ôl eu bondocio a'u plannu, rhaid codi ffens o bob tu perth i'w hamddiffyn rhag da byw.

Fe welwch ddisgrifiadau manwl o lewys coed a ffensys yn y nodiadau technegol eraill.

902 Plygu Perth/Gwrych

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer 'Plygu Perth/Gwrych'.

Os ydych am ddefnyddio dulliau neu arddulliau lleol traddodiadol sy'n wahanol i'r safon, mae croeso ichi wneud hynny, ond os ydych am newid y safon yn sylweddol, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru.

Mae'r nodyn technegol yn disgrifio'r arfer gorau ar gyfer:

- plygu perthi/gwrychoedd;
- coed perthi;
- ffensio a mesurau eraill i amddiffyn perthi

Plygu Perth/Gwrych

Mae plygu perth yn rhoi bywyd newydd i berth. Gyda'r tyfiant newydd a ddaw o fôn y brigau fydd wedi'u plygu, bydd angen dechrau ymhen fawr o dro ar raglen newydd o docio. Yn ddelfrydol, dylai'r brigau a blygir fod rhyw 5-10cm o drwch yn eu bôn a 2.5-3.5m o hyd. Dylech ystyried bondocio unrhyw beth mwy na hynny. Yr amser gorau i blygu perth yw ym misoedd y gaeaf rhwng canol Tachwedd a dechrau Mawrth. Gweler Canllaw'r Ffermwr i Drawsgydymffurfio ar wefan Llywodraeth Cymru (www.llyw.cymru) am ragor o wybodaeth am ddyddiadau torri a phlygu perthi. Dylech blygu perth bob rhyw 10 i 30 mlynedd, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau, a dylech ei thocio 2-5 mlynedd ar ôl ei hadfer.

Lle medrwch, wrth blygu perth, dylech ddilyn y dulliau a'r arferion sy'n draddodiadol yn eich ardal chi, a'r nod wrth gwrs yw creu rhwystr i gadw'ch da byw rhag crwydro (gweler y diagram isod). Cyn plygu'r berth, tynnwch unrhyw hen weiar neu ddarnau o ffens. Er lles bioamrywiaeth, torrwrch dim ond cymaint o goed ysgaw ag sy'n angenrheidiol a thorrrwch unrhyw fieri a thyfiant dringo arall allai amharu ar y gwaith plygu.

Mae plygu perth neu wrych yn golygu lled-dorri coesynnau coed yn agos at eu bôn ar ongl o ryw 30°, ac wedyn eu plygu a'u cydio wrth byst unionsyth. Weithiau, rhwymir y pyst wrth eu topiau gan wiail wedi'u plethu. Peidiwch â defnyddio weiar na chordyn bêls i glymu'r pyst na'r brigau wedi'u torri.


Ffensio a Mesurau Eraill i Amddiffyn Perth

Gallwch ddefnyddio llewys coed i amddiffyn y berth rhag cwningod, er mewn rhai ardaloedd, byddai ffens gwningod yn fwy defnyddiol.

Ar ôl eu plygu, dylech godi ffens i amddiffyn y berth. Rhaid gosod y ffens o leiaf 1m o'r planhigion newydd a dylai fod o leiaf bwlch o 3m rhwng y ddwy ffens o bobtu'r berth.

Peidiwch â defnyddio coed na llwyni fel pyst tynnu neu ffensio a pheidiwch chwaith â'u defnyddio i gynnal weiren, staplau na netin.

Enghraifft o berth/gwrych pleth



610 Coed – Hirgyff

611 Coed a Llwyni – Trawsblannu

612 Coed A Llwyni – Coed Chwip

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer 'Cysgod Coed (60cm gyda Phostyn)', 'Coed a Llwyni' (Coed Hirgyff, Coed Trawsblannu a Choed Chwip) a 'Llewys Coed rhag Cwningod', yn unol â'ch Contract Glastir. Os ydych am ddefnyddio dulliau neu arddulliau lleol traddodiadol sy'n wahanol i'r safon, mae croeso ichi wneud hynny, ond os ydych am newid y safon yn sylweddol, rhaid cael caniatâd Rheolwr eich Contract. Mae'n dangos yr arfer gorau ar gyfer:

- Dewis coed a llwyni
- Amserau plannu
- Archebu a chludo
- Technegau plannu
- Defnyddio llewys coed
- Cynnal a chadw

Telir y taliadau hyn at gost codi cysgodfeydd a llewys coed lle'ch bo chi a Llywodraeth Cymru wedi cytuno ar gynllun rheoli.

Disgrifir yn fanylach sut i ddewis a defnyddio llewys coed mewn nodyn technegol arall.

Cewch ddefnyddio'r eitem gyfalaf hon i blannu 1600 – 2500 o goed fesul hectar mewn lleiniau o hyd at 0.25ha o faint.

Dewis Coed a Llwyni

Coed i'w trawsblannu – eu defnyddio i sefydlu coetiroedd bach – planhigion cryf 1-2 blwydd oed gyda chyfran dda'n wreiddiau o'u cymharu â'r egin. Bydd hynny'n eu helpu i oroesi, yn enwedig mewn pridd llwm ac ar safle agored. Byddant yn fwy na'r coed hirgyff (standards) ymhen rhai blynyddoedd gan gynhyrchu coed iachach a mwy siapus. Rhaid eu hamddiffyn rhag peiriannau ac anifeiliaid a rhaid wrth gryn ofal arnynt yn y blynyddoedd cyntaf. Maen nhw dipyn rhatach na choed chwip a hirgyff a gallwch brynu lawer ar y tro.

Coed chwip – eu defnyddio i blannu coed unigol ac fel coed perthi – coed 1m neu fwy o daldra ond heb fawr o ganghennau. Dylid eu defnyddio ambell waith o dan amgylchiadau arbennig. Er eu bod yn ddrutach a gwannach na choed i'w trawsblannu, maen nhw'n rhatach ac yn cydio'n rhwyddach na choed hirgyff (standards). Er eu bod yn ddigon byr fel nad oes angen pyst a rhwymau i'w cynnal, maen nhw'n ddigon tal fel bod yr egin yn rhy uchel i ysgyfarnogod eu cyrraedd ac maen nhw'n haws eu hamddiffyn rhag cwningod. Nid yw hi mor angenrheidiol chwynnu o'u cwmpas ond bydd angen eu hamddiffyn rhag anifeiliaid mwy a pheiriannau.

Coed hirgyff (Standards) - eu defnyddio mewn tir parc cofrestredig – coed ag 1.8m o goesyn glân cyn y canghennau. Dylech eu dewis os oes angen coed unigol neu grwpiau bychain ohonyn nhw arnoch. Maen nhw'n cael eu plannu fel arfer at ddibenion tirlunio. Maen nhw'n gallu gwrthsefyll chwyn yn well ond maen nhw'n ddrutach a chan eu bod yn sensitif i sychder, maen nhw'n ei chael yn anoddach cydio na choed i'w trawsblannu a choed chwip. Mae angen pyst a rhwymau arnynt, a rhaid eu hamddiffyn rhag peiriannau ac anifeiliaid.

Rhaid i bob planhigyn sy'n cael ei ddefnyddio fel rhan o raglen reoli fod o leiaf 50cm o daldra.

Amserau Plannu

Mae'r tymor plannu'n rhedeg fel arfer o 1 Hydref tan 30 Ebrill. Mae'n well plannu coed a llwyni llydanddail yn yr hydref, gan y bydd y gwreiddiau'n tyfu mewn cyfnodau cynnes gan leihau effeithiau unrhyw sychder yn y gwanwyn.

Ar fannau agored sydd yn nannedd stormydd y gaeaf, efallai y byddai'n well plannu yn y gwanwyn.

Archebu a Chludo

Plannwch goed brodorol yn unig oni bai'ch bod wedi cytuno'n wahanol gyda Llywodraeth Cymru. [Oherwydd clefyd y coed ynn \(Chalara fraxinea\)](#), ni ddylech gynnwys coed ynn mewn unrhyw gymysgedd plannu ar gyfer coetir nac wrth blannu neu adfer perth.

Dewiswch ba goed a llwyni rydych am eu tyfu. Er mwyn ichi eu cael mewn pryd ac ichi gael y stoc gorau, archebwch gymaint ymlaen llaw ag y medrwch. Os medrwch, prynwch blanhigion sydd wedi'u tyfu o hadau a thoriadau lleol gan y gwnân nhw'n well o dan amodau lleol ac mae'n fwy gwerthfawr i anifeiliaid gwyllt na phlanhigion o bell. Gofynnwch i'ch cyflenwr ddod â'r planhigion ichi cyn agosed â phosibl at y dyddiad plannu.

Mae'n well defnyddio meithrinfa sydd wedi ennill ei phlwyf gan y bydd ganddi enw da i'w chadw a dylai'r costau cludiant fod yn is. Hefyd, dim ond am ychydig y bydd y planhigion allan o'r pridd.


Byddwch wrth law pan fydd y planhigion yn cyrraedd er mwyn ichi allu gwneud yn siwr eu bod mewn cyflwr da. [Gofalwch fod y gwreiddiau wedi'u gorchuddio bob amser rhag iddynt gael niwed neu sychu](#). Er na fydd oerfel yn debygol o'u niweidio, gall haul cynnes ac unrhyw beth all eu sychu fel gwynt y dwyrain wneud difrod mawr a'u lladd. Os nad yw'n bosibl eu plannu ar unwaith, palwch ffos cyn iddyn nhw gyrraedd a rhowch nhw ynddi gyda'u gwreiddiau wedi'u gorchuddio er mwyn eu cadw'n llaith ac oer. Amddifynnwch y planhigion rhag anifeiliaid, gan gynnwys cwningod ac ysgyfarnogod.

Technegau Plannu

Mae'r pedwar prif ddull o blannu gan ddefnyddio rhaw i'w gweld ar ddiwedd y nodyn hwn. Mae arfau mwy arbenigol ar gael os ydych yn plannu llawer o goed.


1. Enghraifft o Blannu mewn Twll

Ar gyfer planhigion mawr neu sydd â gwreiddiau swmpus.




2. Enghraifft o Blannu dan Dywarchen

Ar gyfer safleoedd gwlyb â phridd llwm




3. Enghraifft o Blannu mewn Hollt

Ar gyfer planhigion llai â gwreiddiau tynn



4. Enghraifft o Blannu ar Dwmpath



Llewys Coed a Physt

Nid oes angen amddiffyn coed a llwyni oni bai bod perygl i anifeiliaid neu beiriannau eu niweidio. Y ffordd rataf o amddiffyn grwpiau o goed a llwyni rhag peiriannau / anifeiliaid mawr yw trwy godi ffens postyn a weiren. Yna gallwch amddiffyn coed unigol rhag cwningod ac ysgyfarnogod trwy ddefnyddio tiwbiau plastig a llewys coed. Mae angen pyst bychain (wedi'u darparu gan y cyflenwr) i ddal llewys coed yn eu lle, a bydd angen eu pyst a'u rhwymau eu hunain ar goed mwy. Gweler y nodyn technegol ar Giardiau Coed.

Defnyddiwch byst a giardiau coed unigol lle byddai ffens hir yn hyll neu'n rhy gostus, fel yn achos coed unigol ar dir parc neu lle bo perygl i beiriannau eu difrodi. Gallwch brynu'r giardiau hyn neu eu gwneud ar y fferm, ond gofalgwch eu bod yn gryf gan y bydd yn rhaid i'r giard bara tan o leiaf ddiwedd y cytundeb.

Cynnal a Chadw

Mae'n bwysig iawn eich bod yn gofalu am y coed i sicrhau eu bod yn goroesi ac yn tyfu'n iach. Dylech ddyfrhau'r planhigion yn rheolaidd, yn enwedig ar adegau o dywydd sych. Taenwch y dŵr yn araf fel ei fod yn cael amser i ddiferu i'r pridd o gwmpas y goeden. O roi mwltys ar y pridd, efallai na fydd angen dyfrhau mor aml. Peidiwch â gadael i chwyn na phorfa dyfu wrth fôn y coed (bydd eu chwynnu yn lleihau'r difrod gan lygod hefyd). Bydd mwltys trwchus o sglodion rhisgl yn help yn hyn o beth neu defnyddiwch shîten bolythene ddu (500-gauge) a'i rhoi'n sownd yn y ddaear. Fel arall, torrwyd y borfa ac unrhyw dyfiant arall sy'n tyfu uwchben y gwreiddiau.

Dylech chwynnu ddwywaith yn y flwyddyn gyntaf ar ôl plannu ac unwaith y flwyddyn wedi hynny tan y bydd y goeden wedi tyfu'n glir o'r tyfiant o'i hamgylch. Codwch chwyn â llaw neu defnyddiwch chwynladdwr i ladd porfa, dail tafol, ysgall a llysiau'r gingroen. Os ydych yn defnyddio strimiwr, gofalgwch nad ydych yn niweidio coesyn y goeden. Gofalgwch fod y cemegau rydych yn eu defnyddio wedi cael eu gwneud i weithio ar y chwyn rydych am eu lladd a'ch bod yn dilyn y cyfarwyddiadau ar y label.

Os bydd y gwynt neu rew'r gaeaf yn rhyddhau neu'n lled-godi'r planhigion, sathrwch nhw'n dyner yn ôl i'r pridd. Archwiliwch y ffensys, y llewys coed, y pyst a'r rhwymau (cofiwch lacio'r rhwymau rhag iddyn nhw dagu'r goeden) a gofalgwch nad yw'r coed yn tyfu trwy neu yn erbyn giardiau coed.



645 Coed Perllan gyda Phostyn a Giard

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliad ar gyfer 'Coed Perllan gyda Phostyn a Giard'. Os ydych am ddefnyddio dulliau neu arddulliau lleol traddodiadol sy'n wahanol i'r safon, mae croeso i chi wneud hynny, ond os ydych am newid y safon yn sylweddol, rhaid cael caniatâd.

Ganrif yn ôl byddai gan bron bob fferm berllan, lle tyfid mathau o ffrwythau at ddefnydd y teulu ac i'w gwerthu'n lleol. Wrth i'r coed heneiddio dechreuodd y perllannau hyn ddirywio; mae'r ychydig enghreifftiau sydd wedi goroesi yn nodwedd unigryw yng nghefn gwlad ac yn aml maen nhw'n werthfawr iawn o ran bywyd gwyllt.

Cadw hen goed perllan yw'r flaenoriaeth, yn hytrach nag ailblannu gan fod hen goed yn bwysig o ran gwerth bioamrywiaeth a gellir eu tocio i estyn eu hoes.

Enghraifft o goeden perllan a phostyn a giard



646 Plannu Llafnau


Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliad ar gyfer 'Plannu Llafnau (plannu heb ffens)'. Datblygwyd y dull arloesol hwn gan elusen leol annibynnol o'r enw 'Bugeiliaid y Coed'. Mae'n efelychu'r ffordd y mae coed sydd wedi hunan-hau yn gwreiddio'n naturiol ar ffermdir pori. Gallwch 'lafn blannu' coed dros un metr o uchder yn berpendicwlar i dir serth (yn hytrach na phwyntio i fyny) fel na fydd modd i ddefaid na gwartheg sy'n pori gyrraedd y prif flagur. Mae i goed o'r fath broffil 'siâp llafn' a gallwch eu gweld yn tyfu yn y rhan fwyaf o gymoedd Cymru.

Dull Plannu

Gallwch blannu coed ymhlith eithin a hefyd eu 'llafn blannu' ar ongl berpendicwlar i'r llethr ar dir serth. Mae tir serth a bylchog lle mae rhedyn yn tyfu yn ddelfrydol i 'Lafn Blannu' coed. Mae dulliau eraill o blannu heb ffens yn cynnwys plannu coed 1.5-2 m. Lle y bo modd, dylech geisio cael planhigion sydd wedi cael eu tyfu o hadau neu doriadau a gafwyd yn lleol (brodorol), gan y bydd y rhain yn ffynnu'n well o dan amodau lleol ac maen nhw'n fwy gwerthfawr i fywyd gwyllt na stoc a fewnforiwyd.

Enghreifftiau o Goed Llafnau

Coeden aeddfed sydd wedi hunan-hau



Coeden ifanc sydd wedi'i llafn blannu



Gwaith Cyfalaf Ategol:

514 Camfa Ysgol

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer 'Camfa Ysgol'.

Mae'r taliad yn cael ei roi ichi allu darparu cyfleusterau i helpu'r cyhoedd i ddefnyddio llwybrau a mannau cyhoeddus caniataol.

Mae camfeydd ysgol yn cael eu defnyddio gan gerddwyr i fynd dros waliau a chloddiau. Rhaid adeiladu'r gamfa a'r cilbyst o bren meddal sydd wedi'i drin o dan bwysedd neu o bren caled.

Nid yw camfeydd ysgol yn addas ar gyfer hawliau tramwy cyhoeddus. Rhaid i bob celficyn ar hawl tramwy cyhoeddus gydymffurfio â safon BS5709:2006. Ar hawl tramwy cyhoeddus, rhaid dewis y celficyn sy'n cyfyngu leiaf e.e. mae gât yn cyfyngu llai na chamfa. Yn ôl BS5709:2006, os ydych yn rhoi celfi newydd ar hawl tramwy cyhoeddus, peidiwch â defnyddio camfeydd, er y byddai camfa risiau yn dderbyniol os bydd amgylchiadau eithriadol yn gofyn amdani.

Ni ddylai dimensiynau'r pren fod yn llai na'r hyn a ddangosir yn y diagram


Y Gamfa Ysgol Ddwbl

Gallwch naill ai rebadu stepiau'r ysgol yn y ffrâm A neu eu cynnal â darn ychwanegol o bren.

Os ydy'r wal neu'r clawdd yn un llydan, efallai y bydd angen llwyfan ar dop yr ysgol.

Rhaid gwneud troed y ddwy ysgol yn ddiogel trwy gladdu bonion y ffrâm A o leiaf 30cm yn y ddaear a'u hangori gan ddefnyddio cynheiliaid (gweler y llun). Peidiwch â defnyddio concrit os medrwch gan ei fod yn gallu pydru'r cynheiliaid ar lefel y ddaear.

Enghraifft o Gamfa Ysgol Ddwbl



516 Cilbyst a Gât Ceffyl o Bren

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer 'Cilbyst a Gât Ceffyl o Bren'. Os ydych am ddefnyddio dulliau neu arddulliau lleol traddodiadol sy'n wahanol i'r safon, mae croeso ichi wneud hynny, ond os ydych am newid y safon yn sylweddol, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru.

Mae'r taliad yn cael ei roi ichi allu darparu cyfleusterau i'r cyhoedd allu defnyddio llwybrau a mannau cyhoeddus caniataol. Cysylltwch â'ch awdurdod lleol os ydych yn credu bod angen codi gât ceffyl ar Hawl Tramwy Cyhoeddus.

Rhaid adeiladu'r gât a'r cilbyst o bren meddal sydd wedi'i drin o dan bwysedd neu bren caled.

Rhaid i'r gatiâu fod o leiaf 1.5m o led ac 1.3m o uchder. Yn ddelfrydol, dylai fod lle ar un ochr y gât i'r ceffyl sefyll tra bod y gât yn cael ei hagar.


Dylech hongian y gât fel y mae'r diagram yn ei ddangos er mwyn ichi allu ei hagar o ddau

gyfeiriad. Byddai clicied 'estyn' neu 'ffrwy' yn gadael ichi agor y gât heb ddod oddi ar eich ceffyl. Mewn ardaloedd o fandaliaeth, gellir troi bachyn uchaf y gât ben i wared fel ei bod yn anodd codi'r gât o'i lle.

Cilbyst

- Y cilbost hongian - diamedr o 15cm fan leiaf
- Y cilbost cau - diamedr o 12cm fan leiaf
- Dylai 70cm o bob postyn fod yn y pridd. Peidiwch â defnyddio concrit os medrwn gan y gall bydru'r pren ar lefel y ddaear.

Enghraifft o Gât Ceffyl a Chilbyst o Bren



517 Cilbyst a Gât Mochyn o Bren

Mae'r Nodyn Technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer 'Cilbyst a Gât Mochyn o Bren', yn unol â'ch Contract Glastir. Os ydych am ddefnyddio dulliau neu arddulliau lleol traddodiadol sy'n wahanol i'r safon, mae croeso ichi wneud hynny, ond os ydych am newid y safon yn sylweddol, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru.

Mae'r taliad yn cael ei roi ichi allu darparu cyfleusterau i'r cyhoedd allu defnyddio llwybrau a mannau cyhoeddus caniatol.

Rhaid adeiladu'r gât a'r cilbyst o bren meddal sydd wedi'i drin o dan bwysedd neu o bren caled.

Rhaid i'r gât mochyn ateb y gofynion canlynol:

- ni fydd stoc yn gallu mynd trwyddi sut bynnag mae hi, ond bydd pobl yn gallu cerdded trwyddi'n rhwydd;
- bydd yn rhwystr effeithiol rhag beicwyr a cheffylau.
- bydd yn cydymffurfio â safon BS5709:2006. Ar hawl tramwy cyhoeddus, rhaid dewis y celficyn sy'n cyfyngu leiaf e.e. mae gât yn cyfyngu llai na chamfa.

Gallwch brynu gât barod a rhaid ei hongian yn unol â'r diagram. Rhaid i'r gatiau fod o leiaf 1.2m o led ac 1.2m o uchder. Rhaid i silindr 1m fertigol allu pasio trwy'r gât. Gofalwch nad yw 'gwddf' y gât mochyn (y lle culaf pan fyddwch yn cerdded trwyddi) yn llai na 1m o led.


Dimensiynau'r Cilbyst a'r Rheiliau

- Defnyddiwch gilbyst â chroestoriad o 10cm x 7.5cm fan leiaf.
- Defnyddiwch reiliau â chroestoriad o 7.5cm x 2.5cm, ond dylai'r rheilen uchaf fod yn 10cm x 7.5cm.
- Dylai'r cilbost hongian fod â diamedr o 15cm fan leiaf
- Dylai'r cilbost cau fod â diamedr o 12cm fan leiaf
- Dylai 70cm o bob postyn fod yn y pridd. Peidiwch â defnyddio concrit os medrwn gan y gall bydru'r pren ar lefel y ddaear.

Gosodwch fachau'r gât fel eu bod yn ymestyn 3cm o'r cilbost. Bydd hynny'n gwneud i'r gât gau yn erbyn un o'r cilbyst pan fyddwch yn ei gollwng. Iddi fod yn fwy fyth o rwystr i stoc, gosodwch glicied sy'n cau ei hun. Mewn ardaloedd o fandaliaeth, gellir troi'r bachyn uchaf ben i wared fel ei bod yn anodd codi'r gât o'i lle.

Enghraifft o gât mochyn pren

Mae'r gât hon yn cydymffurfio â safon BS5709, cyn belled wrth gwrs ag mai hwn yw'r adeiledd lleiaf cyfyngol o ran ei leoliad a'i fod yn cael ei osod yn gywir (dim weiren bigog, ar dir solid ac ati).



519 Camfa Bren

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliad ar gyfer 'Camfeydd Pren', yn unol â'ch Contract Glastir. Os ydych am ddefnyddio dulliau neu arddulliau lleol traddodiadol sy'n wahanol i'r safon, mae croeso i chi wneud hynny, ond os ydych am newid y safon yn sylweddol, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru.

Mae taliadau safonol ar gael ar gyfer darparu cyfleusterau i helpu'r cyhoedd i ddefnyddio llwybrau a thir mynediad caniatool.

Mae llawer o wahanol ffyrdd o gynllunio ac adeiladu camfeydd. Rhaid i bob celfcyn ar hawl tramwy cyhoeddus gydymffurfio â safon BS5709:2006. Ar hawl tramwy cyhoeddus, rhaid dewis y celfcyn sy'n cyfyngu leiaf e.e. mae gât yn cyfyngu llai na chamfa. Yn ôl BS5709:2006, os ydych yn rhoi celfi newydd ar hawl tramwy cyhoeddus, peidiwch â defnyddio camfa, oni bai bod amgylchiadau eithriadol yn gofyn amdani.

Dangosir dau gynllun cyffredin yma: enghraifft o gamfa gul a chamfa lydan. Mae'r mesuriadau wedi'u dangos mewn milimetrau. Mae'r ddau ar gael ar ffurf 'pecyn' gan gynhyrchwyr lleol.

Rhaid i'r camfeydd gael eu gwneud o bren meddal wedi'i drin dan wasgedd neu bren caled.


Ar gyfer camfeydd llydan a chul:

- Dylai'r stepen fod 200 mm o led o leiaf.
- Dylai diamedr neu wyneb y rheiliau fod o leiaf 70 – 100 mm
- Peidiwch â defnyddio'r pyst fel pyst tynnu ar gyfer ffensys
- Ni ddylai fod mwy na 1:30 o oleddf ar unrhyw ran o unrhyw stepen
- Dylai cilbyst fod rhwng y fertigol a 1:30

Os ydy'r gamfa ar lethr, gallwch roi trydedd stepen ar yr ochr isaf. Dylai fod ddwywaith lled stepen gyffredin ac ni ddylai fod yn uwch na 300mm.

Beth bynnag yw'r cynllun ar gyfer safle penodol, mae'n bwysig iawn sicrhau nad yw'r stepen ei hun yn cyffwrdd rheiliau'r gamfa er mwyn osgoi effaith si-so, a fyddai'n golygu nad yw'r gamfa'n ddiogel i'w defnyddio.

Enghraifft o gamfa bren



Nodyn A

Stepiau cyfochrog, dim mwy na 450, dim llai na 350
Stepiau croesi 45°, dim mwy na 600, dim llai na 500

533 Gât Mochyn Daear

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliad ar gyfer 'Gât Mochyn Daear'. Os ydych am ddefnyddio dulliau neu arddulliau lleol traddodiadol sy'n wahanol i'r safon, mae croeso i chi wneud hynny, ond os ydych am newid y safon yn sylweddol, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru.


Mae moch daear fel rheol yn dilyn yr un llwybrau wrth symud o amgylch eu tiriogaeth. Wrth ffensio i reoli ardal benodol mae angen ystyried llwybrau sefydlog y moch daear.

Er mwyn annog y moch daear i ddefnyddio'r gatiau, rhaid gosod y gatiau yn union ar lwybrau moch daear sydd eisoes yn bodoli.

Dylid claddu'r ffens bob ochr i'r gât o leiaf 15cm i mewn i'r tir. Gellid gosod sylfaen bren neu garreg i atal y tir rhag erydu dan y gât. Dylid trin y pren â hylif cadw priodol diwenwyn, diarogl.

Mae'r diagram canlynol yn dangos arfer da.

Enghraifft o Gat Mochyn Daear



573 Gât Ddŵr

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliad ar gyfer 'Gât Ddŵr'. Os ydych am ddefnyddio dulliau neu arddulliau lleol

traddodiadol sy'n wahanol i'r safon, mae croeso i chi wneud hynny, ond os ydych am newid y safon yn sylweddol, rhaid cael caniatâd.

Mae angen gatiau ddŵr pan fydd llinellau ffensys yn croesi afonydd a nentydd. Bydd gan groesfannau addas waelod afon caled a mynediad rhesymol o'r naill lan a'r llall. Bydd gwaith adeiladu a gwaith cynnal a chadw yn haws os dewiswch groesfannau cywir.

Mae gatiau ddŵr yn hanfodol i ddiogelu ffensys lle mae lefel y ddŵr yn amrywio cryn dipyn drwy gydol y flwyddyn. Mae'n rhaid i bob gât fod yn adeiledd sylweddol. Hyd yn oed ar nentydd bach bydd cymysgedd o ddail a changhennau yn llifo i lawr bob blwyddyn ac yn ymgasglu wrth linell y ffens. Mae hyn yn rhoi pwysau ar y gwifrau a'r polion a gall beri i ran gyfan o'r ffens ddiflannu.

Fel y dengys y diagramau isod, mae'n rhaid i gât ddŵr gael ei gwahanu oddi wrth linell y brif ffens gan ddarnau byr o reilen bren neu netin a glymir wrth byst cynnal sydd mewn lleoliadau addas. Mae'r gât ei hun yn cynnwys cyfres o byst pren wedi'u clymu wrth ddarn o gebl neu reilen bren gron sy'n cael ei hongian yn llorweddol rhwng y pyst cynnal. Mae'n rhaid adeiladu pob gât i fod yn addas ar gyfer proffil y nant unigol.

Mae'n rhaid i'r pyst fod o leiaf 5cm sgwâr ar eu traws ac wedi'u gwneud o bren llifedig heb ei drin sydd wedi cael ei ddrilio ac yna'i roi ar y cebl neu'r wifren ffens gyda darnau 15cm o bibell blastig fel darnau gwahanu. O ganlyniad, bydd pob postyn 15cm oddi wrth ei gilydd. Lle mae gyli'r nant dros 1.5m o ddyfnder, dylech chi ddefnyddio 7cm sgwâr o bren heb ei drin i wneud gât. Bydd y gât yn cael ei hongion ar bolyn pren crwn drwy ddefnyddio dolenni o wifren ffens. Gallwch ei wneud mewn sawl darn. O wneud hynny, mae'n llai tebygol y caiff y gât gyfan ei hysgubo i ffwrdd yn ystod llifogydd mawr.


Os byddwch yn hongian y gât ar wahân i'r brif ffens ac yna'n uno'r ddwy â netin lac neu reiliau wedi'u hoelio'n ysgafn, gall y gât gael ei thynnu i ffwrdd a'i chludo i lawr y nant yn ystod llifogydd mawr heb ddifrodi'r brif ffens. Ni fydd llawer o ddifrod i'r gât a gallwch gael y gât yn ei hôl, ei hatgyweirio a'i hadnewyddu'n rhwydd.

Dylech chi hongian gatiau ar ongl, gyda gwaelod y gât yn gorwedd ar wely'r nant ar yr ochr i lawr. Os yw gât yn hongian yn llorweddol gyda'r pyst braidd â chyffwrdd â'r dŵr, bydd modd i dda byw basio drwyddi pan fydd lefel y dŵr yn gostwng.

Gatiau Dŵr Crog

Ar gyfer nentydd llydan, pyst tynnu 12.5cm ar eu traws.

Enghreifftiau o Gatiau Dŵr



563 Pibelli Cyflenwi Dŵr

574 Cafnau Dŵr

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer 'Pibell Cyflenwi Dŵr'.

Bydd angen pibelli i gyflenwi dŵr yfed i stoc er mwyn pori cynefinoedd sydd ar hyn o bryd heb gyflenwad dŵr. Neu mae'n bosibl nad yw'r ffynhonnell wreiddiol o ddŵr bellach ar gael i dda byw o ganlyniad i ffensio a osodwyd i gwrdd â gofynion amgylcheddol.

Rhaid i bob gwaith cyflenwad dŵr gydymffurfio â Chodau Ymarfer Safonau Prydeinig cyfredol. Wrth osod pibelli rhaid cymryd gofal i atal difrod i wasanaethau eraill megis cyflenwad dŵr, gwastraff, nwy, trydan a ffôn.

Rhaid ystyried amrywiaeth o ffactorau wrth bennu diamedr y pibelli. Mae'r rhain yn cynnwys: pwysedd dŵr capasiti dŵr, llif amrywiol, hyd y bibell a newid o ran uchder, faint o dŵr sydd ei angen, y nifer o gafnau, y nifer a'r math o stoc sy'n defnyddio pob cafn. Er mwyn bod yn gymwys am daliad o dan Gontract Glastir, rhaid i bibell ddŵr ddarparu digon o ddŵr yfed oer i ail-lenwi'r holl gafnau dŵr ar ei hyd yn barhaus drwy'r flwyddyn mewn 10 munud.

Rhaid i'r pibelli fod o bolyethylen glas dwysedd canolog (BS 6572) gydag diamedr allanol o o leiaf 2.5 cm. Rhaid i'r holl gymalau fod o bres neu blastig, yn ddwrglos ac yn cwrdd â Safonau Prydeinig. Lle bydd cymalau wedi'u claddu dan ddaear, cynghorir eich bod yn marcio eu lleoliadau, ar byst ffensiâu er enghraifft, er mwyn cynorthwyo â'u cynnal a'u cadw yn y dyfodol.

Rhaid claddu pibelli i o leiaf dyfnder o 60cm, er efallai y bydd angen i hyn fod yn ddyfnach os rhagwelir aredig dwfn neu aredig yr isbridd yn y dyfodol. Gellir gosod pibelli drwy dorri ffosydd, gydag aradr wadd neu aradr isbridd, gan ddibynnu ar y math o bridd a'r peiriannau sydd ar gael. Rhaid adfer y tir i'r llystyfiant gwreiddiol ac i safon a gytunir â Llywodraeth Cymru.

Pan fydd yn croesi ffosydd agored, rhaid gosod gard o diwb dur neu bibell lawes dros y bibell, a'i osod 60cm islaw'r ffos er mwyn caniatáu lle ar gyfer glanhau'r ffos. Wrth groesi llwybrau fferm, rhaid gosod y bibell ar wely 7.5cm o dywod a'i gorchuddio â 10cm arall o dywod cyn ôl-lenwi ar ei ben.

Rhaid gwarchod unrhyw bibelli sy'n codi o'r ddaear rhag rhew. Lle bydd stoc yn bresennol, megis yn ardal y cafn dŵr, rhaid gwarchod y pibelli rhag difrod gan anifeiliaid.

Rhaid rheoli'r cyflenwad dŵr drwy ynysu falfiau/tapiau cau ar bwynt y cyflenwad ac wrth bob cafn. Rhaid gwarchod y falfiau ynysu/tapiau cau rhag rhew a difrod gan stoc, a rhaid iddynt fod yn hawdd cyrraedd atynt. Lle bo falfiau/tapiau cau wedi'u claddu, rhaid gwneud hynny at ddyfnder o 60cm o leiaf a dylai fod modd cyrraedd atynt drwy siambr archwilio dan orchudd. Un datrysiaid yw cyfuno draeniau maes a safleoedd y falfiau.

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer 'Cafnau Dŵr'. Os ydych am ddefnyddio dulliau neu arddulliau lleol traddodiadol sy'n wahanol i'r safon, mae croeso ichi wneud hynny, ond os ydych am newid y safon yn sylweddol, rhaid cael caniatâd.

Bydd angen cafnau ddŵr i gyflenwi dŵr yfed i stoc er mwyn pori cynefinoedd sydd ar hyn o bryd heb gyflenwad dŵr. Neu mae'n bosibl nad yw'r ffynhonnell wreiddiol o ddŵr bellach ar gael i dda byw o ganlyniad i ffensiō a osodwyd i gwrdd â gofynion amgylcheddol.

Safonau

Rhaid i bob gwaith cyflenwi dŵr fodloni Cod Ymarfer y Safonau Prydeinig.

Rhaid i'r cafnau dŵr fod wedi'u gwneud o ddur wedi'i alfaneiddio, plastig neu goncrit. Dylent fod o steil penodol ac wedi'u dylunio at y gwaith. Ni ddylai'r deunydd eich taro'n chwith wrth ichi edrych arno fel rhan o'r dirwedd o'i gwmpas.

Rhaid i'r cafn fod o leiaf 1.8m o hyd a bydd yn ddigon mawr i gyflenwi digon o ddŵr i'r anifeiliaid fydd yn yfed ohono. Efallai y bydd angen mwy nag un cafn. Bydd naill ai wedi'i gysylltu â'r cyflenwad dŵr neu bydd dŵr yn llifo'n rheolaidd iddo o 'fowser', fel bod y stoc yn y cae yn cael digon o ddŵr i ateb eu gofynion. Bydd y taliad safonol yn cynnwys costau ffitiadau fel tap pelen ac ati.


Rhaid gofalu nad yw'r cafnau'n sarnu na'n gollwng dŵr. Mae'r taliad safonol yn cynnwys tâl am byst pren neu gynhaliad arall. Dylai unrhyw ddŵr sy'n crynhoi o'i gwmpas allu treiddio i'r pridd. Os bydd stablad (sathru) y pridd yn broblem, dylech osod arwyneb galed.

Lleoliad

Er y dylech osod eich cafn dŵr mewn lle y gall eich stoc fynd ato'n rhwydd, peidiwch â'i osod wrth fwllch cae neu ger llwybr lle gallai achosi problem mynediad. Dylech osgoi hefyd unrhyw le allai fod yn bwysig oherwydd ei blanhigion neu ei anifeiliaid gwyllt. Mae tir gwlyb yn arbennig o anaddas gan y bydd perygl i'r stoc ei stablad (stwnsio'r pridd).

Dylech allu osgoi effeithio ar y dirwedd trwy osod eich cafn ar ymyl cae.

Enghraifft o gafnau dŵr addas



593 Ffens Postyn a Rheilen

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer 'Ffens Postyn a Rheilen', yn unol â'ch Contract Glastir. Os ydych am ddefnyddio dulliau neu arddulliau lleol traddodiadol sy'n wahanol i'r safon, mae croeso ichi wneud hynny.

Mae'r taliad yn cael ei roi ar gyfer ffensio tir at ddiben rheoli bywyd gwyllt a nodweddion y dirwedd ac archeolegol. Bydd y math o ffens y bydd ei hangen arnoch yn dibynnu ar eich anghenion. Bydd y taliad yn talu am ddatgymalu, codi a difetha hen ffensys.

Cynigir taliad ar gyfer ffens postyn a rheilen lle byddai'n addas i'r dirwedd, mewn parcdir fel arfer neu i reoli stoc ar hyd glan nant, afon neu lyn.


Rhaid adeiladu'r ffens postyn a rheilen o bren meddal sydd wedi'i drin o dan bwysedd neu o bren caled.

Rhaid i'r ffens postyn a rheilen fod o leiaf 1m o uchder o'r llawr i'r rheilen uchaf.

Cilbyst

Rhaid iddynt fod:

- Yn sgwâr neu'n hirsgwar ag iddynt groestoriad o 12.5cm x 7.5cm o leiaf.
- Ni ddylai fod mwy na 2m rhwng pob un (1.8m fel arfer, gan mai hyd rheilen safonol yw 3.6m)



Rhaid i o leiaf 70cm o bob postyn fod yn y pridd a rhaid i wyneb y postyn fod yn sgwâr â llinell y ffens. Rhaid palu tyllau i'r pyst a rhoi'r postyn yn sownd trwy gywasgu pridd a cherrig yn y twll. Peidiwch â defnyddio concrit os medrwch gan ei fod yn pydru'r pyst ar lefel y pridd. Os byddwch yn llifio brig y pyst ar ôl eu gosod, rhaid trin yr arwynebau â hylif cadw priodol o'r un lliw â gweddill y pren

Rheiliau

Rhaid gosod o leiaf tair rhes o reilau pren 3.8cm x 8.7cm, gyda'r hoelion wedi'u hoelio ar ongl iddynt. Rhaid hoelio'r rheilau ar ochr y stoc o'r pyst. Pan fydd dwy reilen yn cwrdd ar un postyn, yna dylai'r rheilau ar y rhes oddi tani gwrdd ar y postyn nesaf ac felly yn y blaen, fel y gwelwch yn y diagram. Gallwch ychwanegu rhesi o reilau yn ôl y gofyn.

Gallwch wneud y ffens yn fwy effeithiol ar gyfer cadw stoc trwy wau weiar netin rhwng y pyst. Bydd taliad atodol ar gyfer weiar netin.

[Peidiwch â defnyddio coed na llwyni fel pyst tynnu neu ffensio a pheidiwch chwaith â'u defnyddio i gynnal weiren, staplau na netin.](#)

Enghraifft o Ffens Postyn a Rheilen

Yn addas ar gyfer cadw ceffylau a gwartheg

594 Ffens Postyn a Weiren

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer 'Ffens Postyn a Weiren', yn unol â'ch Contract Glastir. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru.

Efallai y bydd angen caniatâd, cydsyniad neu drwydded arnoch i gynnal rhai mathau o waith o dan Glastir. Gofalwch eich bod yn cynnal y gwaith hwnnw yn unol â'r drwydded, y cydsyniad neu'r caniatâd.

Rhaid i bren y ffens fod naill ai yn bren caled neu'n bren meddal sydd wedi'i drin o dan bwysedd.

Peidiwch â defnyddio coed na llwyni fel pyst tynnu neu ffensio a pheidiwch chwaith â'u defnyddio i gynnal weiren, staplau na netin.

Rhaid i'r pren, y wifren, y netin a'r staplau a ddefnyddir i adeiladu'r ffens i gyd fod yn newydd. Mae'r taliad safonol yn cynnwys tâl i ddatgymalu, chwalu a difetha'r hen ffens. Rhaid i'r holl ddeunydd a safonau adeiladu gydymffurfio â'r manylebau isod yn ogystal ag â Safonau Prydeinig 10223 – 1:2012.

Ffens Postyn a Weiren

Rhaid bod gan y ffens postyn a weiren o leiaf dri llinyn o weiar, a honno'n naill ai'n weiren ddur mwyn wedi'i alfaneiddio (4mm o drwch) neu weiren bigog llinyn dwbl tro (2.5mm o drwch). Ar ffens sy'n ffinio â llwybr neu ffordd gyhoeddus, rhaid i'r weiren uchaf fod yn weiren blaen neu rhaid gosod llinyn arall o weiren blaen wrth du allan y pyst sydd agosaf i'r llwybr.


Bydd gan y pyst tynnu groestoriad o 12.5cm fan leiaf a byddant o leiaf 2m o hyd. Bydd o leiaf 1m o hwnnw o dan ddaear oni bai bod Llywodraeth Cymru yn cytuno'n wahanol. Rhaid rhoi pyst tynnu ym mhen llinell y ffens a phob 100m neu lai yng nghanol y ffens. Rhaid gosod pyst tynnu hefyd bob tro y mae'r tir yn mynd i fyny neu i lawr neu'n newid cyfeiriad.

Rhaid rhoi pwyslathau (strytiau) ar y pyst sydd ym mhen llinell y ffens a lle bydd y tir yn mynd i fyny neu i lawr neu'n newid cyfeiriad. Bydd gan y pwyslathau ddiamedr o 6.5cm neu fwy a rhaid eu sefydlogi â naill ai blât sylfaen neu bostyn canol mewn lle addas.

Ni ddylai pyst canol fod â diamedr o lai na 6.5cm (pyst crwn a phren wedi'i dorri) a dylent fod o leiaf 1.7m o hyd. Mae pyst hanner crwn yn gwneud y tro cyn belled â'u bod yn mesur o leiaf 6.5cm o bwynt canol yr ochr sydd wedi'i llifio i bwynt canol yr ochr gron.

Rhaid gosod y pyst canol bob 3m neu lai. Rhaid defnyddio staplau wedi'u galfaneiddio i gysylltu pob weiren wrth y pyst. Ni ddylai'r weiren dop fod yn llai na 1.05m o'r llawr.

Enghraifft o Ffens Weiren Tri Llinyn



595 Ffens Postyn a Weiar Gyda Netin Stoc

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer 'Ffens Postyn a Weiar gyda Netin Stoc', yn unol â'ch Contract Glastir. Os ydych am newid y safon, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru.

Efallai y bydd angen caniatâd, cydsyniad neu drwydded arnoch i gynnal rhai mathau o waith o dan Glastir. Gofalwch eich bod yn cynnal y gwaith hwnnw yn unol â'r drwydded, y cydsyniad neu'r caniatâd.

Rhaid i bren y ffens fod naill ai yn bren caled neu'n bren meddal sydd wedi'i drin o dan bwysedd.

Peidiwch â defnyddio coed na llwyni fel pyst tynnu neu ffensio a pheidiwch chwaith â'u defnyddio i gynnal weiren, staplau na netin.

Rhaid i'r pren, y wifren, y netin a'r staplau a ddefnyddir i adeiladu'r ffens i gyd fod yn newydd. Mae'r taliad safonol yn cynnwys tâl i ddatgymalu, chwalu a difetha'r hen ffens. Rhaid i'r holl ddeunydd a safonau adeiladu gydymffurfio â'r manylbau isod yn ogystal ag â Safonau Prydeinig 10223 – 1:2012.

Postyn a Weiren â Netin

Rhaid diogelu'r netin trwy ei alfaneiddio a rhaid gosod un llinyn o weiar uwchlaw top y netin.

Ni ddylai'r weiren dop fod yn llai na 1.05m o'r llawr. Lle bydd gwartheg neu ddefaid yn rhoi llawer o bwysau ar y ffens, dylech roi ail llinyn o weiar uwch ben y netin yn ogystal â weiren ychwanegol o dan y netin. Ar unrhyw ffens a godir wrth lwybr neu ffordd gyhoeddus, rhaid i'r weiren dop fod wedi'i gwneud o weiren blaen neu rhaid gosod llinyn ychwanegol o weiren blaen ar ochr allanol y pyst sydd agosaf i'r llwybr dan sylw.

Bydd gan y pyst tynnu groestoriad o 12.5cm fan leiaf a byddant o leiaf 2m o hyd. Bydd o leiaf 1m o hwnnw o dan ddaear oni bai bod Llywodraeth Cymru yn cytuno'n wahanol. Rhaid rhoi pyst tynnu ym mhen llinell y ffens a phob 100m neu lai yng nghanol y ffens. Rhaid gosod pyst tynnu hefyd bob tro y mae'r tir yn mynd i fyny neu i lawr neu'n newid cyfeiriad.


Rhaid rhoi pwyslathau (strytiaau) ar y pyst sydd ym mhen llinell y ffens a lle bydd y tir yn mynd i fyny neu i lawr neu'n newid cyfeiriad. Bydd gan y pwyslathau ddiamedr o 6.5cm neu fwy a rhaid eu sefydlogi â naill ai blât sylfaen neu bostyn canol mewn lle addas.

Ni ddylai pyst canol fod â diamedr o lai na 6.5cm (pyst crwn a phren wedi'i dorri) a dylent fod o leiaf 1.7m o hyd. Mae pyst hanner crwn yn gwneud y tro cyn belled â'u bod yn mesur o leiaf 6.5cm o bwynt canol yr ochr sydd wedi'i llifio i bwynt canol yr ochr gron.

Rhaid gosod y pyst canol bob 3m neu lai. Rhaid defnyddio staplau wedi'u galfaneiddio i gysylltu pob weiren wrth y pyst. Ni ddylai'r weiren dop fod yn llai na 1.05m o'r llawr.

Rhaid cysylltu'r netin a'r weiar wrth y pyst â staplau wedi'u galfaneiddio.

Enghraifft o Ffens Postyn a Weiren â Netin



596 Ffensys Cwningod

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer 'Ffensys Cwningod'.

Mae'r taliad safonol yn cael ei roi ar gyfer ffensio tir at ddiben rheoli bywyd gwyllt a nodweddion y dirwedd ac archeolegol. Bydd y math o ffens y bydd ei hangen arnoch yn dibynnu ar eich anghenion.

Rhaid i bren y ffens fod naill ai yn bren caled neu'n bren meddal sydd wedi'i drin o dan bwysedd.


Peidiwch â defnyddio coed na llwyni fel pyst tynnu neu ffensio a pheidiwch chwaith â'u defnyddio i gynnal weiren, staplau na netin.

Rhaid i'r pren, y wifren, y netin a'r staplau a ddefnyddir i adeiladu'r ffens i gyd fod yn newydd. Mae'r taliad safonol yn cynnwys tâl i ddatgymalu, chwalu a difetha'r hen ffens. Rhaid i'r holl ddeunydd a safonau adeiladu gydymffurfio â'r manylbau isod yn ogystal ag â Safonau Prydeinig 10223 – 1:2012.

Ffens Gwningod

Dylai ffens i gadw cwningod ac ysgyfarnogod draw fod wedi'i gwneud o weiar netin wedi'i galfaneiddio. Ni ddylai fod yn llai na 1.05m o uchder ac ni ddylai'r rhwyll fod yn fwy na 3cm. Ni ddylai ymyl uchaf y netin fod yn llai na

Gosodwch byst tynnu a physt canol yn unol â'r cyfarwyddiadau ar gyfer ffens postyn a weiren. Rhaid cysylltu o leiaf dau llynyn o weiar uwchlaw'r netin a dylai'r weiren dop fod o leiaf 1.05m o'r llawr. Defnyddiwch staplau wedi'u galfaneiddio i osod y netin a'r weiren. Rhaid diogelu pob gât yn y ffens gwningod hefyd.

[illegible]

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer 'Gatiau caeau – pren caled'. yn unol â'ch Contract Glastir. Os ydych am ddefnyddio dulliau neu arddulliau lleol traddodiadol sy'n wahanol i'r safon, mae croeso ichi wneud hynny, ond os ydych am newid y safon yn sylweddol, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru.

Rhaid i bob gât cae o bren gydymffurfio â'r disgrifiad ar y dudalen nesaf yn ogystal ag â Safon Brydeinig 5709: 2006.

Rhaid i gatiâu caeau o bren fod o leiaf 2.4m o led, ond ddim mwy na 4.2m. Os ydy'r bwlch yn fwy na 4.2m, rhaid gosod dwy ddalen. Rhaid adeiladu gatiâu caeau o bren sydd wedi'i dorri'n ddarnau yn unol â'r dimensiynau yn y tabl isod.

Rhaid hongian pob gât cae o bren ar gilbyst pren oni bai'ch cytuno'n wahanol gyda Llywodraeth Cymru. Rhaid i bob postyn fod o leiaf 2.1m o hyd. Bydd gan bob post hongian groestoriad o 200mm x 200mm fan leiaf a bydd gan byst cau groestoriad o 175mm x 175mm. Rhaid gosod pob cilbost yn gywir yn y pridd, gan ddefnyddio concrit os oes angen. Gosodwch y bachau a'r cliciedau ar y postyn yn ôl y gofyn.

Peidiwch â defnyddio pyst hongian na physt cau yn byst tynnu ar gyfer ffensys. Dylech ddefnyddio darn byr o bren hollt i ffurfio pwyslath (stryt) llorweddol rhwng postyn y gât (neu gilbost) a'r postyn tynnu agosaf.

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer 'Gatiau caeau – pren meddal'. yn unol â'ch Contract Glastir. Os ydych am ddefnyddio dulliau neu arddulliau lleol traddodiadol sy'n wahanol i'r safon, mae croeso ichi wneud hynny, ond os ydych am newid y safon yn sylweddol, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru cyn dechrau ar y gwaith.

Rhaid adeiladu'r gât a'r cilbyst o bren meddal sydd wedi'i drin o dan bwysedd. Peidiwch â defnyddio deunyddiau ail law oni bai bod amgylchiadau eithriadol, a rhaid i Lywodraeth Cymru eu cymeradwyo ymlaen llaw.


Rhaid i bob gât cae o bren gydymffurfio â'r disgrifiad ar y dudalen nesaf yn ogystal ag â Safon Brydeinig 5709: 2006.

Rhaid i gatiâu caeau o bren fod o leiaf 2.4m o led, ond ddim mwy na 4.2m. Os ydy'r bwlch yn fwy 4.2m, rhaid gosod dwy ddalen. Rhaid adeiladu gât cae gan ddefnyddio pren sydd wedi'i dorri'n ddarnau yn unol â'r dimensiynau yn y tabl isod.

Rhaid hongian pob gât cae o bren ar gilbyst pren oni bai'ch cytuno'n wahanol gyda Llywodraeth Cymru. Rhaid i bob postyn fod o leiaf 2.1m o hyd. Bydd gan bob post hongian groestoriad o 200mm x 200mm fan leiaf a bydd gan byst cau groestoriad o 175mm x 175mm. Rhaid gosod pob cilbost yn gywir yn y pridd, gan ddefnyddio concrit os oes angen. Gosodwch y bachau a'r cliciedau ar y postyn yn ôl y gofyn.

Peidiwch â defnyddio pyst hongian na physt cau yn byst tynnu ar gyfer ffensys. Dylech ddefnyddio darn byr o bren hollt i ffurfio pwyslath (stryt) llorweddol rhwng postyn y gât (neu gilbost) a'r postyn tynnu agosaf.

Enghraifft o Gât Cae o Bren (pren caled a phren meddal)



604 Giardiau Rhag Stoc ar Goed Parcdir

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd i chi allu cael taliad ar gyfer 'Giardiau Rhag Stoc ar Goed Parcdir', yn unol â'ch Contract Glastir. Os ydych am ddefnyddio dulliau neu arddulliau lleol traddodiadol sy'n wahanol i'r safon, mae croeso i chi wneud hynny, ond os ydych am newid y safon yn sylweddol, rhaid cael caniatâd Llywodraeth Cymru.

Math o Giardiau Rhag Stoc

Bydd y dewis o gardiau rhag stoc ar goed parcdir yn dibynnu ar y canlynol:

- Maint y goeden sydd i'w hamddiffyn.
- Y math o niwed a ddisgwylir, e.e. brigdorri, tynnu rhisgl, rhwbio.

- Y math o anifail sydd fwyaf tebygol o achosi niwed.
- Yr adeg pan fydd y goeden mewn perygl o gael ei niweidio.
- Golwg y giardyn (Arferion Coedwigoedd Cyffredinol UKWAS 24 – Ystyried effaith ffensio ar dirwedd)

Gosod Giardiau Rhag Stoc a'u Huchder

Rhaid i unrhyw gardiau rhag stoc sydd wedi'u gwneud o reiliau pren fod o leiaf 1.2 metr o uchder a rhaid eu gosod o leiaf fetr o'r goeden i'w hamddiffyn rhag defaid (neu 1.5 metr i'w hamddiffyn rhag gwartheg a cheffylau.)

Adeiladu Giardiau Rhag Stoc

Defnyddiwch gyfuniad o byst fertigol a rheiliau llorweddol i adeiladu strwythur cadarn. Gosodwch netin gwifrau o'i amgylch i atal da byw rhag dod i mewn. Bydd y rheiliau llorweddol yn atal y pyst rhag cael eu llacio. Mae'n bosibl y caiff y parcdir ei ddefnyddio gan amrywiaeth o dda byw felly rhaid i'r giardau fod yn ddigon cryf i ymdrin â'r sefyllfa waethaf posibl a allai godi. Peidiwch â cheisio cynyddu'r pellter rhwng y rheilen uchaf a'r goeden drwy ogwyddo'r pyst tuag allan. Bydd hynny yn ei gwneud yn anodd gosod y netin yn gadarn yn ei le.

Nid oes angen gosod weiren bigog ar ben y giard am fod hyn yn annhebygol o atal anifeiliaid rhag pwyso drosodd, a bydd yn anos mynd i mewn i'r ffald i drin y goeden. At hynny gall weiren bigog eich anafu chi a'ch da byw.

Cynllun y Giardiau Rhag Stoc

Dim ond mewn caeau lle mai defaid yw'r unig dda byw y mae gofod trionglog yn dderbyniol. Dylai gofod o'r fath fod o leiaf 1.2m o uchder ac o leiaf 0.8m o led ar bob un o'r tair ochr. Mae'n bwysig cofio, wrth i'r goeden dyfu, ei bod yn bosibl y bydd angen gwneud y giard yn lletach.

Gofod sgwâr neu hirsgwar yw'r cynllun a ffefrir. Dylai diameter pob un o'r pedwar postyn cornel fod o leiaf 10cm x 10cm. Dylid gosod o leiaf bedair rheilen bren sydd o leiaf 10cm x 5cm ar eu traws ar ochr allanol y pyst. Wedyn dylid gosod netin wedi'i galfaneiddio o amgylch y strwythur a'i ddal yn ei le â staplau wedi'u galfaneiddio. At hynny gellir gosod set ychwanegol o reiliau hanner ffordd i fyny'r pyst i'w hatgyfnerthu. Rhaid i unrhyw bren, netin a staplau gynnwys deunyddiau newydd. Mae'n rhaid defnyddio pren meddal wedi'i drin dan wasgedd neu bren caled.


Giardiau Metel Rhag Stoc

Mathau tradoddiadol o giardiau yw'r rhain ac maen nhw'n cael eu defnyddio mewn hen barciau. Mae'n bwysig eich bod yn eu harchwilio'n rheolaidd er mwyn sicrhau nad yw'r goeden yn tyfu i mewn i'r gwaith metel a chamffurfio. Câi giardiau o'r fath eu gwneud o haearn gyr yn wreiddiol ond erbyn hyn maent ar gael mewn dur meddal.


Engbrefftau o Giardiau Coed Parcdir

1. Giard Postyn a Rheil


a) Yn addas i'w ddefnyddio gyda defaid




b) Yn addas i'w ddefnyddio gyda cheffylau a gwartheg



Rheiliau i gadw'r
pyst yn gadarn



2. Mathau Metel Traddodiadol



608 Cysgod Coed (60cm gyda Phostyn)

647 Llewys Coed Rhag Cwningod

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer 'Cysgod Coed (60cm gyda Phostyn)', a 'Llewys Coed rhag Cwningod', yn unol â'ch Contract Glastir. Os ydych am ddefnyddio dulliau neu arddulliau lleol traddodiadol sy'n wahanol i'r safon, mae croeso ichi wneud hynny, ond os ydych am newid y safon yn sylweddol, rhaid cael caniatâd Rheolwr eich Contract. Mae'n dangos yr arfer gorau ar gyfer:

- Defnyddio llewys coed
- Cynnal a chadw

Cewch ddefnyddio'r eitem gyfalaf hon, i blannu 1600 – 2500 o goed fesur hectar mewn lleiniau o hyd at 0.25ha o faint.

Llewys Coed rhag Cwningod

Llewys coed rhag cwningod yw'r ffordd fwyaf cyffredin o amddiffyn coed rhag cwningod a llygod. Maent wedi'u gwneud o blastig ac ar gael mewn tri maint, (45cm, 60cm a 75cm). Rhaid dal pob llawes yn ei lle â gwialen bambŵ, ac ni ddylai fod yn dalach na'r goeden y mae'n ei hamddiffyn ar adeg ei phlannu. Ar ôl plannu coeden, mae gwialen bambŵ yn cael ei gwthio i'r ddaear wrth ochr y goeden. Yna mae deunydd plastig yn cael ei droi o amgylch y goeden a'r wialen er mwyn cadw mamaliaid bach allan.

Cysgod Coed

Mae cysgodion coed yn diwbiau plastig lled dryloyw hyd at 2m o uchder sy'n cael eu defnyddio i amddiffyn coed ifanc. Mae pob cysgod ynghlwm wrth bolyn ac fe ddylai gynnal ac amddiffyn y goeden am tua 5–10 mlynedd cyn pydru.

Mae cysgodion yn ateb cyfleus i nifer o'r problemau sy'n codi wrth sefydlu coetir newydd. Ymysg problemau o'r fath mae rheoli chwyn a niwed difrifol gan anifeiliaid. Mewn cynlluniau

bach lle bo gwaith ffensio a thyfu yn gymharol ddrud, yn aml cysgodion coed yw'r ateb mwyaf ymarferol.

Maint ac Adeiladwaith

Er mwyn amddiffyn rhag anifeiliaid sy'n pori, mae angen i'r cysgod fod yn uwch nag uchder pori'r anifail. Gall hyn amrywio o 60cm ar gyfer cwningod ac ysgyfarnogod i 2m ar gyfer iyrchod. Gall defaid bori hyd at 1.2m–1.5m o uchder. Fel rheol bydd ceirw yn cael eu cadw allan o'r ardal â ffens geirw briodol.

Mae gan y mwyafrif o gysgodion coed ddiamedr neu ochr 8-12cm, ac maent wedi'u hadeiladu o bolypropylen dwbl. Er bod y cysgodion ar gael mewn gwahanol liwiau, ychydig o wahaniaeth sydd rhyngddynt o ran tyfiant y coed. Wrth blannu dan goed sydd eisoes wedi sefydlu, lle mae'n debygol o fod yn dywyll, yn gyffredinol mae'n well defnyddio tiwbiau clir, lled dryloyw.

Gosod postyn

Rhaid cysylltu pob cysgod coed â phostyn gan ddefnyddio weiren neu glipiau plastig. Dylai'r postyn fod â diamedr o 2.5cm x 2.5cm ar safleoedd cysgodol a 3cm x 3cm ar safleoedd mwy agored. Rhaid gosod y postyn yn fertigol ac ni ddylai ymestyn dros frig y cysgod neu bydd perygl i'r goeden gael ei niweidio wrth dyfu yn uwch na'r cysgod.

905 Rheoli Mieri / Prysg – Chwistrellydd Cefn

Mae'r nodyn technegol hwn yn disgrifio'r safon y bydd gofyn i'r gwaith ei chyrraedd ichi allu cael taliad ar gyfer 'Rheoli Mieri/Prysg – Chwistrellydd Cefn', yn unol â'ch Contract Glastir.

Mae'r fiaren yn rhywogaeth frodorol lwyddiannus a chyffredin iawn sy'n tyfu mewn amrywiaeth o gynefinoedd ledled Prydain, gan gynnwys mewn coetir, gwaun, twyni, corsydd a glaswelltir. Mae nifer o nodweddion iddi all esbonio'i llwyddiant: mae'n goroesi'n hir yn y banc hadau; gall luosogi'n gyflym

trwy doriadau; mae'n lled-fythwyrdd - mewn gaeafau mwyn, nid yw coesynnau'r flwyddyn gyntaf yn colli'u dail; mae adar yn ei lledaenu ymhell. Ond o dan amodau ffafriol, gall dyfu'n llwyni trwchus a llethu rhywogaethau eraill.

Gyda chytundeb Rheolwr Coetir Glastir, cewch eu rheoli â chemegau trwy ddefnyddio chwistrellydd cefn. Peidiwch â defnyddio'r dull hwn os ydy'r prysg neu'r mieri'n dalach na'ch gwasg gan na fydd yn effeithiol iawn. Mae'r dull hwn yn ddefnyddiol ar gyfer darnau bach o dir ond mae'n waith blinderus gan fod y chwistrellydd yn drwm, bydd angen ei ail-lenwi'n rheolaidd ac mae'n waith caled cadw'r bwm dros y mieri.

Bydd angen ichi gytuno ymlaen llaw â'ch Rheolwr Coetir Glastir cyn defnyddio unrhyw gemegyn arall heblaw Glyphosate ond pa gemegyn bynnag a ddefnyddir, rhaid ei fod wedi'i gymeradwyo i'w ddefnyddio ar fieri ac ar gyfer y dull a ddefnyddir. Dilynwch y cyfarwyddiadau ar label y gwneuthurwr.

Defnyddio Chwynladdwyr

Gofalwch eich bod yn defnyddio chwynladdwr at y diben a thrwy'r dull sydd wedi'u hargymhell ar y label.

Rydym yn eich cyngori i ddilyn argymhellion y 'Cod Gwyrdd' (Y Cod Ymarfer Cymeradwy ar gyfer Defnyddio Plaladdwyr yn Ddiogel ar Ffermydd a Daliadau, MAFF, 1998), ac argymhellion Canllawiau UKFS: General Forest Practice (1-3, 23), Forest and Water (56-65), Forests and Soil (5).

<http://adlib.everysite.co.uk/adlib/defra/content.aspx?doc=155712&id=155809>